Bwrdd Gweithredol Tŷ'r Cwmnïau – cofnodion cryno – 22 Hydref 2009

Cywirdeb Data
Bu'r Bwrdd yn trafod y dadansoddiad a gynhaliwyd ynghylch cywirdeb y data a gedwir ar y gofrestr, gan ddod i'r casgliad, er nad oes problem arwyddocaol, bod angen casglu gwybodaeth bellach.

Rheoli Asedau Gwybodaeth – Diweddariad
Bu'r Bwrdd yn trafod y gofynion y mae angen delio â nhw er mwyn cyflawni'r lefelau cydymffurfio gofynnol ar gyfer Fframwaith Polisi Diogelwch a Model Aeddfedrwydd Sicrhau Gwybodaeth.

Rhaglen y Ddeddf Cwmnïau – Diweddariad
Cyflwynwyd y diweddariad diweddaraf i'r Bwrdd yn dilyn gweithrediad Deddf Cwmnïau 2006 ar 1 Hydref. Yn gyffredinol, roedd y broses weithredu wedi mynd rhagddi yn dda; nodwyd rhai problemau technegol a rhai a oedd yn ymwneud â chwsmeriaid, ac mae'r rhain yn cael sylw.

Rhaglen e100 – Diweddariad
Hysbyswyd y Bwrdd bod cynnydd da yn cael ei sicrhau o ran y Prosiect Gallu Electronig Estynedig (EECP). Nodwyd bod cynllun llawn o un pen i'r llall yn cael ei gwmpasu er mwyn diffinio sefyllfa'r rhaglen ar y diwedd.

Diweddariad ynghylch Bwrdd Busnes yr Asiantaeth (ABB) a Cherdyn Sgorio Misol ar gyfer mis Awst
Darparwyd y diweddariad misol ar gyfer y Bwrdd gan ABB.

Perfformiad Ariannol
Dosbarthwyd y Pecyn Adrodd Ariannol misol ar gyfer mis Awst i'r aelodau er gwybodaeth.

Adolygiad o'r Risgiau Allweddol i'r Bwrdd Gweithredol
Bu aelodau'r Bwrdd yn adolygu'r gofrestr risgiau bresennol, gan gytuno i'r diwygiadau ar gyfer rhai o'r proffiliau risg a gyflwynwyd.

Rheolaeth Dilyniant Busnes (BCM) – Diweddariad
Darparwyd adroddiad statws o'r gwaith a gyflawnwyd hyd yn hyn i'r Bwrdd. Cytunwyd y byddai adroddiad ar gynnydd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd bob blwyddyn yn ystod ei gyfarfod ym mis Hydref.

Ysgrifenyddiaeth
Hydref 2009